# Gweithlen

Gwersylloedd yr Urdd







Dyma gyfle i chi ddarllen am wersylloedd yr Urdd ac ar yr un pryd *(at the same time)* ymarfer ar gyfer Uned 2, 3 a 4 yr arholiad TGAU newydd.

## Gwersyll Glan-llyn

Yn y gerdd *Waw! Glan-llyn* mae'r bardd, Dorothy Jones, yn disgrifio Glan-llyn fel y '**lle harddaf** fu erioed'. Tybed pam?

Mae Gwersyll Glan-llyn yn ganolfan addysg **awyr agored** ar lan Llyn Tegid ger y Bala. Mae llawer o bethau i wneud yno ac mae plant a phobl ifanc yn mwynhau'r wal ddringo, y cwrs rhaffau, bowlio deg, nofio, datrys problemau a **chyfeiriannu**. Hefyd, wrth gwrs, mae llawer o weithgareddau cyffrous ar y llyn fel **ceufadu**, canŵio, hwylio neu adeiladu rafft.

Mae gan y gwersyll 55 o ystafelloedd gwely 'en suite' sy'n cysgu dau, pedwar, chwech neu wyth o bobl. Mae lle i 250 o wersyllwyr ar y tro. Mae **cysylltiad** i'r wi-fi ar gael ar draws y safle.

Mae'r gwersyll yn paratoi brecwast, cinio, te a swper. Mae digon o ddewis ac mae'r bwyd yn **iachus** ac yn flasus dros ben. Mae Glan-llyn yn defnyddio **cynnyrch lleol** lle mae hynny'n bosib.

Mae gan y gwersyll 10 ystafell gyfarfod sy'n **amrywio mewn maint** ac mae'n bosibl cynnal cyfarfodydd bach neu **gynadleddau**. Mae'r cyfleusterau sy ar gael yn cynnwys **taflunydd**, teledu gyda chysylltiadau i gyfrifiadur a chynhadledd fidio a ffôn.

Mae'r gerdd ar dudalen 58/59 o'r llyfr yma.
www.carreg-gwalch.com




**DARLLENWCH** y darn *Gwersyll Glan-llyn* a defnyddiwch strategaethau deall iaith i'ch helpu i ddod o hyd i'r geiriau Cymraeg sy'n cyfateb *(correspond)* i'r canlynol:

- healthy
- vary in size
- open air
- kayaking
- conferences
- projector
- connection
- orienteering
- local produce
- most beautiful place

Nawr darllenwch y darn *Gwersyll Glan-llyn* eto ac atebwch y cwestiynau ar y dudalen nesaf.

**UNED 3** Adroddiadol, penodol a chyfarwyddiadol
(i) Tasg gydag ymateb ysgrifenedig


1. Mae'n rhaid i chi fod yn berson sy'n mwynhau bod allan yn yr awyr agored i fwynhau Glan-llyn. | Cywir | Anghywir |
2. Mae'r darn yn sôn am dri gweithgaredd ar y llyn. | Cywir | Anghywir |
3. Faint o bobl sy'n aros yn y gwersyll pan mae'n llawn?
4. Sawl pryd o fwyd mae'r gwersyll yn paratoi bob dydd?
5. Rhowch 3 rheswm pam mae'r bwyd yng Nglan-llyn yn dda.
6. Ydy pob ystafell gynhadledd yr un maint?

**Uned 4** Disgrifiadol, creadigol a dychmygus
Ymateb ysgrifenedig (personol) i destunau parhaus *(continuous texts)*.

Mae eich athro wedi gofyn i chi ysgrifennu paragraff yn ymateb i'r darn darllen *Gwersyll Glan-llyn* sy ar dudalen 8. Gallwch chi sôn am:
- y gweithgareddau awyr agored sy'n apelio atoch chi
- unrhyw weithgaredd fasech chi ddim yn mwynhau
- y bwyd a'r math o fwyd hoffech chi gael
- y cysylltiad i'r wi-fi, cynnyrch lleol etc
- ymweliad â Glan-llyn gyda'r ysgol (ydych chi wedi bod yno **neu** hoffech chi fynd yno a pham)



## Gwersyll Llangrannog



**DARLLENWCH** y darn darllen parhaus
***Gwersyll Llangrannog***
ac yna cwblhewch y tasgau sy'n dilyn

Mae gwersyll Llangrannog ar arfordir godidog  Bae Aberteifi yng ngorllewin Cymru.

Mae dros 20 o weithgareddau ac mae'n bosibl trefnu rhaglen o 9 o'r gloch yn y bore tan 10 o'r gloch yr hwyr! Gallwch chi ddewis sgïo, gwibgartio, saethyddiaeth, reidio beic cwad, marchogaeth, nofio, taith gerdded a llawer mwy.
Fin nos mae amserlen arbennig i gadw pawb yn brysur. Unwaith eto mae dewis eang. Beth am ymuno yn y twmpath dawns, y cwis, y disgo, yr helfa drysor, y sioe dalent neu beth am fynd am dro i bentref Llangrannog?
Mae lle i dros 400 o bobl aros yn y blociau cysgu 4 seren gan gynnwys 62 ystafell 'en suite' sy'n cysgu rhwng chwech ac wyth o bobl ac wyth ystafell 'en suite' dwbl.
Mae'r bwyd yn flasus ac yn iachus dros ben. Mae cogyddion y gwersyll yn defnyddio cynnyrch tymhorol, lleol a Chymreig lle mae hynny'n bosibl.
Mae 15 o ystafelloedd cyfarfod ac maen nhw'n amrywio mewn maint. Mae cyfleusterau modern yma gan gynnwys bwrdd gwyn rhyngweithiol, taflunydd a thechnoleg band llydan a wi-fi.

**Uned 4** Disgrifiadol, creadigol a dychmygus
Ymateb ysgrifenedig (personol) i destunau parhaus *(continuous texts)*.

**YSGRIFENNWCH** e-bost at grŵp o'ch ffrindiau yn awgrymu eich bod yn mynd i wersyll Llangrannog am benwythnos hir yn yr haf.

**Meini Prawf Llwyddiant**

| Cynnwys | Iaith |
|---|---|
| Lleoliad Llangrannog | Gwahodd: Ydych chi'n gallu .../ Fasech chi'n hoffi ...?/ Ydych chi'n ffansïo ...?/ Beth am ...? |
| Dyddiadau posibl | Perswadio: Dych chi'n siwr o .../ Mae'n le .../ Bydd digon o .../ Mae'r bwyd yn .../ Cewch gyfle i .../ Dw i wedi clywed bod ... |
| Trefniadau teithio | Mynegi barn |
| Gweithgareddau | Disgrifio – defnyddio ansoddeiriau da |
| Bwyd | |
| Ystafelloedd | |
| a.y.y.b. ... | |
| Defnyddiwch y darn darllen ***Gwersyll Llangrannog*** i'ch helpu. | |

Beth am gyfnewid *(swop)* eich ebost gydag aelodau eraill o'r grŵp ac yna **YSGRIFENNU** ymateb i'r gwahoddiad?

Y tro yma bydd angen i chi:
- ddiolch am y gwahoddiad
- dderbyn y gwahoddiad
- ymateb i awgrymiadau (e.e. dyddiadau posibl/trefniadau teithio)
- ymateb i gwestiynau (e.e. Wyt ti'n cytuno?/Beth am ...?)
- mynegi barn am y gweithgareddau, y bwyd, yr ystafelloedd etc
- cynnig rhesymau i gefnogi (support) eich barn
- gofyn cwestiwn

**Uned 4** Disgrifiadol, creadigol a dychmygus
Ymateb ysgrifenedig (personol) i destunau parhaus *(continuous texts)*.

**DARLLENWCH** y ddau ddarn *Gwersyll Glan-llyn* a *Gwersyll Llangrannog* eto. Nodwch 3 pheth sy'n **debyg** ac tri pheth sy'n **wahanol** rhwng Gwersyll Glan-llyn a Gwersyll Llangrannog.
e.e. lleoliad, yr ystafelloedd, maint y gwersyll, y gweithgareddau ayyb.

| | Gwersyll Glan-llyn / Gwersyll Llangrannog | | |
|---|---|---|---|
| **Beth sy'n debyg?** | 1. | 2. | 3. |
| **Beth sy'n wahanol?** | 1. | 2. | 3. |

## Gwersyll Caerdydd

**Ffeil-o-ffaith**

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | Canolfan Mileniwm, Bae Caerdydd |
| **Cyfleusterau:** | Lle i 153 o bobl |
| | 29 o ystafelloedd 'en suite' |
| | Neuadd fwyta |
| | Brecwast, cinio a swper |
| | Lolfa i ymlacio |
| | Bwrdd pŵl |
| | Peiriant bwyd a diod |
| **Atyniadau:** | Canolfan y Mileniwm |
| | Y Senedd |
| | Techniquest |
| | Super Bowl |
| | Canolfan Siopa Dewi Sant |
| | Canolfan y Ddraig Goch |
| **Atyniadau hanesyddol:** | Castell Coch |
| | Castell Caerdydd |
| | Pwll Mawr |
| | Amgueddfa Dinas Caerdydd |
| | Amgueddfa Genedlaethol |
| | Amgueddfa Sain Ffagan |
| **Chwaraeon:** | Stadiwm Pêl-droed |
| | Stadiwm y Mileniwm (rygbi) |
| **Teithio o gwmpas:** | Bws awyr agored |
| | Cwch cyflym |
| | Trên Tir Bae Caerdydd |
| | Taith Cwch Caerdydd |

Ewch ar y wefan **urdd.org/gwersylloedd** i weld fidio a mwy o luniau a manylion am y gwersyll a'r atyniadau.

Defnyddiwch y **ffeil-o-ffaith** i'ch helpu i ysgrifennu disgrifiad o wersyll yr Urdd Caerdydd ar gyfer cylchgrawn yr ysgol.

***Defnyddiwch** y darnau darllen *Gwersyll Glan-llyn* a *Gwersyll Llangrannog* i'ch helpu.

**Hefyd** defnyddiwch batrymau iaith fel:
- I bobl sy'n hoffi ... mae ...
- Os ydych chi'n mwynhau ... yna mae ...
- Mae pobl sy'n hoff o ... yn gallu ...
- Os ydych chi wrth eich bodd yn ... yna ... ydy'r lle i chi
- Mae'n syniad mynd ...
- Mae pobl yn dweud bod ... yn ...



**UNED 2** – Cyfathrebu ag eraill – mewn pâr neu grŵp o dri.

Ymarfer ar gyfer Uned 2
Trafod Gwersylloedd yr Urdd

Cofiwch bydd rhaid i chi:
- roi gwybodaeth trwy gyfeirio at y llun, y testun, y poster ayyb
- gwrando ac ymateb i farn partner/grŵp
- mynegi barn am gynnwys y llun, y testun, y poster ayyb
- cytuno/anghytuno gydag aelodau eraill y grŵp a holi eu barn

## A

Mae Gwersyll Glan-llyn yn ganolfan addysg awyr agored gyffrous ar lan Llyn Tegid ger y Bala. Mae llawer o bethau i wneud yno. Dw i'n mwynhau'r wal ddringo, y cwrs rhaffau a llawer o weithgareddau cyffrous ar y llyn fel canŵio a hwylio. (George W. Bl. 10).

**(i)** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda George?
**(ii)** Rhowch eich barn eich hun ar y testun.

## B

Beth ydy'ch barn am y lluniau?

Cofiwch gynnig rheswm i gefnogi'ch barn.







## C

**Atyniadau Bae Caerdydd**
Defnyddiwch y **ffeil-o-ffaith**.

**(i)** rhowch wybodaeth i'r grŵp am yr atyniadau sy'n apelio atoch chi a pham.

**(ii)** gofynnwch am farn aelodau eraill y grŵp gan ofyn am resymau.